

# Crisialau halwyn yn tyfu coesau

Darllenwch yr erthygl lawn yn [rsc.li/49SNNH2](https://rsc.li/49SNNH2)

Gallwch weld gweddillion halwyn gwyn ar strwythurau concrit yn aml.

Mae hyn yn cael ei achosi oherwydd bod dŵr hallt yn mudo i arwyneb y deunyddiau mandyllog, lle bydd y dŵr yn anweddu, gan adael yr halwyn ar ôl. Mae'r broses yn hyll ac mae hyd yn oed yn ddinistriol.

Mae gwyddonwyr wedi darganfod bod crisialau halwyn yn gallu tyfu coesau bach i godi eu hunain oddi wrth arwynebau hydroffobig penodol.

Roedd yr ymchwilyr wedi rhoi defnynnau o ddŵr heli ar wydr silanedig sy'n ficrosgopig lyfn. Wrth i'r dŵr anweddu, mae crisialau'n ffurfio ar y rhyngwyneb dŵr-aer, gan eistedd ar eu corneli i leihau'r cyswllt â'r arwyneb.

Wrth i'r anweddiad fynd rhagddo, mae nifer o goesau crisialaidd bach yn tyfu ar waelod yr adeiledd, sy'n codi'r crisial cyfan oddi ar yr arwyneb. Ar dymheredd uwch, mae rhagor o goesau'n tyfu – ac yn gyflymach.



Ewlychiad sylfaenol yn dangos ymddangosiad crisialau halwyn yn tarddu o goncrit

# Crisialau halwyn yn tyfu coesau

Darllenwch yr erthygl lawn yn [rsc.li/49SNNH2](https://www.rsc.li/49SNNH2)

Gallwch weld gweddillion halwyn gwyn ar strwythurau concrit yn aml.

Mae hyn yn cael ei achosi oherwydd bod dŵr hallt yn mudo i arwyneb y deunyddiau mandyllog, lle bydd y dŵr yn anweddu, gan adael yr halwyn ar ôl. Mae'r broses yn hyll ac mae hyd yn oed yn ddinistriol.

Mae gwyddonwyr wedi darganfod bod crisialau halwyn yn gallu tyfu coesau bach i godi eu hunain oddi wrth arwynebau hydroffobig penodol.

Roedd yr ymchwilyr wedi rhoi defnynnau o ddŵr heli ar wydr silanedig sy'n ficrosgopig lyfn. Wrth i'r dŵr anweddu, mae crisialau'n ffurfio ar y rhyngwyneb dŵr-aer, gan eistedd ar eu corneli i leihau'r cyswllt â'r arwyneb.

Wrth i'r anweddiad fynd rhagddo, mae nifer o goesau crisialaidd bach yn tyfu ar waelod yr adeiledd, sy'n codi'r crisial cyfan oddi ar yr arwyneb. Ar dymheredd uwch, mae rhagor o goesau'n tyfu – ac yn gyflymach.

1. Rhowch fformiwla gemegol halen.
2. Disgrifiwch briodweddau ffisegol nodweddiadol halwyn.
3. Disgrifiwch adeiledd a bondiau sodiwm clorid.



Ewlychiad sylfaenol yn dangos ymddangosiad crisialau halwyn yn tarddu o concrit